

SALESBURY, WILLIAM (1520? - 1584?), ysgolhaig a phrif gyfieithydd y Testament Newydd Cymraeg cyntaf

Enw: William Salesbury
Dyddiad geni: 1520?
Dyddiad marw: 1584?
Priod: Catrin Salesbury (née Llwyd)
Rhiant: Annes ferch Wiliam ap Gruffydd ap Robin
Rhiant: Ffwg ap Robert ap Tomas Salbri Hen
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolhaig a phrif gyfieithydd y Testament Newydd Cymraeg cyntaf
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awduron: William Alun Mathias, Robert Thomas Jenkins

Uchelwr o waed ydoedd, yn ail fab i Ffwg ap Robert ap Tomas Salbri Hen, ac Annes, ferch [Wiliam ap Gruffydd ap Robin](#) o Gochwillan. Ganed ef yn Llansannan, ond treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn y Plas Isa, Llanrwst. Addysgwyd ef yn Rhydychen, a thebyg mai yno y cefnodd ar Eglwys Rufain a throi'n Brotestant. Priododd Catrin Llwyd, chwaer y [Dr. Elis Prys](#), Plas Iolyn. Er i [Syr John Wynn](#) o Wedir ac eraill awgrymu iddo fyw hyd tua diwedd y ganrif, y mae'n lled sicr mai tua 1584 neu ychydig cyn hynny y bu farw.

Yr oedd dau brif gymhellid y tu ôl i weithgarwch William Salesbury : awydd i roi'r Ysgrythur Lân o fewn cyrraedd y Cymry, ac awydd i gyflwyno dysg a gwybodaeth iddynt yn eu hiaith eu hunain. Ei gynig cyntaf ar drosi'r Ysgrythurau i'r Gymraeg oedd y cyfieithiad o lithoedd gwasanaeth Cymun yr Eglwys a argraffodd yn 1551 dan y teitl [Kynniver llith a ban](#). Dryswyd ei gynlluniau dros dro pan adferwyd y grefydd Gatholig Rufeinig dan y frenhines Mari (1553-8), ond yn gynnar yn nheyrnasiad Elisabeth, yn y flwyddyn 1563, pasiwyd deddf yn gorchymyn cyfieithu'r *Beibl* a'r *Llyfr Gweddi Gyffredin* i'r Gymraeg, a gwahoddwyd ef i gynorthwyo [Richard Davies](#), esgob Tyddewi, gyda'r cyfieithu. Gorffennwyd y *Llyfr Gweddi* a'r *Testament Newydd* erbyn 1567 a chyhoeddwyd y ddau destun y flwyddyn honno. Salesbury a wnaethai'r rhan fwyaf o'r gwaith: efe, hyd y gellir barnu, a gyfieithodd y *Llyfr Gweddi*, ac ef hefyd a gyfieithodd holl lyfrau'r *Testament Newydd* ar wahân i Lyfr y Datguddiad a gyfieithwyd gan [Thomas Huet](#), cantor Tyddewi, a'r epistolau canlynol a gyfieithwyd gan [Richard Davies](#) - 1 Timotheus, Hebraeid, Iago, 1 a 2 Pedr. Y mae'n debyg i Salesbury a'r [esgob Davies](#) ddechrau cyfieithu'r *Hen Destament* i'r Gymraeg, ond am ryw reswm - yn ôl [Syr John Wynn](#) am iddynt anghytuno ar ystyr a tharddiad rhyw air - ni ddaeth y gwaith i ben, ac ni chafwyd yr *Hen Destament* yn Gymraeg hyd nes cyhoeddodd y [Dr. William Morgan](#) ei gyfieithiad o'r *Beibl* yn 1588. Bu beirniadu llym ar gyfieithiadau Salesbury, ac ni chawsant nemor ddim croeso, am eu bod yn dryfrith o ffurfiau Lladinaidd a hynodion orgraffyddol eraill, ac, o'r herwydd, yn annealladwy i liaws mawr o'i gyfoeswyr. Er hynny, gwych o gyfieithiadau oeddynt o ran iaith ac arddull, a mawr oedd dyled y [Dr. Morgan](#) iddynt.

Ni chyfyngodd Salesbury ei weithgarwch i gyfieithu'r Ysgrythurau. Yn 1547 argraffodd eiriadur i ddysgu Saesneg i'r Cymry; hwn o bosibl ydoedd y llyfr argraffedig cyntaf yn Gymraeg. Tair blynedd yn ddiweddarach cyhoeddodd lyfr i gynorthwyo Saeson i ddysgu Cymraeg. Un o'i lyfrau mwyaf adnabyddus ydyw *Oll Synnwyr pen Kembero ygyd*, casgliad o ddiarhebon Cymraeg a argraffodd tua 1547 er ceisio dwyn ei gydwladwyr i ymgydnabod â pheth o ddysg draddodiadol eu cenedl. Trosodd rai testunau o ieithoedd eraill yn Gymraeg. Er enghraifft, yn 1552 cyfieithodd draethawd ar retoreg o'r Lladin yn Gymraeg. Ond ni chyhoeddodd y gwaith hwn nac ychwaith y llysieulyfr a gyfieithodd o destunau Lladin a Saesneg rhwng 1568 a 1574. Yn ychwanegol at y gweithiau a enwyd, argraffodd Salesbury nifer o lyfrau ar amrywiol destunau yn Gymraeg a Saesneg. [Argraffwyd y *Llysieulyfr* yn 1916.]

Ymddangosodd ail argraffiadau o rai o weithiau Salesbury yn y cyfnod diweddar: (a) adargraffiad ffacsimile o'r *Dictionary in Englyshe and Welshe*, 1547, a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Cymmrodorion (d.d., 1877?), gweler ysgrif [Robert Jones](#) o Rotherhithe yn *Cymm.*, i, 107-25, a nodyn [J. H. Davies](#) yn *Cymm.*, xiv, 96-7; (b) adargraffiad o *Oll Synnwyr Pen*, gan Urdd Graddedigion y Brifysgol (Bangor, 1902, gol. [J. Gwenogvryn Evans](#)); (c) adargraffiad o *Kynniver llith a Ban* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1931, gol. [John Fisher](#)); (ch) ail argraffiad o'r *Testament Newydd* (Robert Griffith, Caernarfon, 1850). Ar Gymraeg Salesbury, gweler [W. J. Gruffydd](#), *Llenyddiaeth Cymru, 1540-1660*, 31-66 (a ddelia hefyd â materion eraill ynglyn ag ef), ac [Ifor Williams](#) yn *Y Traethodydd*, 1946, 32-45. Ar fater y testun Groeg o'r *T.N.* a ddefnyddiodd Salesbury, gweler [Thomas Charles Edwards](#) yn *Liverpool Welsh Nat. Soc. Trans.*, 1885-6, 51-81. Bu dull 'ffonetaidd' Salesbury o sillafu geiriau Saesneg (modd y gallai'r Cymro ddysgu eu cynanu'n gywir) yn gryn help i ymchwil i'r modd y cyfenid yr iaith Saesneg yn y 16eg ganrif - gweler e.e. A. J. Ellis, *Early English Pronunciation*, 744-88.

William Salesbury oedd Cymro mwyaf dysgedig ei oes: medrai Hebraeg, Roeg, a Lladin yn ogystal â rhai ieithoedd diweddar, ac yr oedd yn hyddysg mewn lluo o wahanol bynciau. Ond ysgolhaig a llenor Cymraeg ydoedd yn anad dim, ac ef ydyw un o brif gynrychiolwyr dyneiddiaeth y Dadeni Dysg yng Nghymru. Prin y cyflawnodd neb fwy o wasanaeth i genedl y Cymry na

William Salesbury. Ei gyfraniad mawr oedd cyfieithu'r Ysgrhythurau yn Gymraeg a thrwyddynt osod sylfeini rhyddiaith Gymraeg ddiweddar.

Awduron

William Alun Mathias

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

D. R. Thomas, *The Life and Work of Bishop Davies and William Salesbury* (1902)

W. Alun Mathias, *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, vii, (July 1952), 125-43

Darllen Pellach

[Testament Newydd ein Arglwydd Iesu Christ gwedy ei dynnu, yd y gadei yr ancyfiaith, 'air yn ei glyydd or Groec a'r Llatin](#)

W. Alun Mathias, "William Salesbury a'r Testament Newydd", *Llên Cymru*, Cyfrol 16 (1989), tt.40-68

Isaac Thomas, *Y Testament Newydd Cymraeg, 1551-1620* (Caerdydd 1976)

Coflein: [PLAS ISAF, GER LLANRWST](#)

Erthygl Wicipedia: [William Salesbury](#)

Gweithiau

William Salesbury, [A dictionary in Englyshe and Welshe](#) (1547)

William Salesbury, [Liver gweddi Gyffredin a gwenidogaeth y sacrametae, ac eraill gynneddfeue a' ceremoniae yn Eccles Loecr](#) (London 1567)

William Salesbury, [Testament Newydd ein Arglwydd Iesu Christ gwedy ei dynnu, yd y gadei yr ancyfiaith, 'air yn ei glyydd or Groec a'r Llatin, gan newidio ffurf llythyreu y gairiae-dodi](#) (1567)

William Salesbury, [Kynniver lliith a ban or yscrythur lan ac a arlleir yr Eccleis pryd Commun, y Sulieu a'r Gwiliu trwy'r vlwyddyn](#) (London 1551)

Sain a Ffilm

Teledu Annibynwyr: [William Salesbury](#)

Teledu Annibynwyr: [William Salesbury and the New Testament](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q8018052](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

